# DEDDF ADDYSG UWCH (CYMRU) 2015

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR ADRANNAU O'R DDEDDF

### Rhan 2 – Cynlluniau Ffioedd a Mynediad

#### *Adran 12 – Darpariaethau atodol ynghylch cyfarwyddydau cydymffurfio ac ad-dalu*

36. Mae'r adran hon yn caniatáu i CCAUC ddyroddi canllawiau ynghylch y camau sydd i'w cymryd gan gorff llywodraethu sefydliad wrth gydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir o dan adran 11. Gallai canllawiau ddarparu ar gyfer yr amgylchiadau pan fo ffioedd uwchlaw'r terfyn i'w had-dalu i fyfyriwr yn uniongyrchol a'r amgylchiadau pan fo ffioedd uwchlaw'r terfyn i'w had-dalu drwy'r Student Loans Company Limited. Mae adran 12(3) yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu, wrth gydymffurfio â chyfarwyddyd o'r fath, ystyried unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan CCAUC o dan yr adran hon. Cyn dyroddi'r canllawiau, rhaid i CCAUC ymgynghori â chorff llywodraethu pob sefydliad rheoleiddiedig a chaiff ymgynghori â chyrff llywodraethu sefydliadau eraill yng Nghymru sy'n darparu addysg uwch ac sy'n elusennau yn ôl yr un sy'n briodol ym marn CCAUC.